

## Cyfarfod Gweddi

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fercher yr wythnos hon, Hydref 2. Dowch atom os medrwrch i weddio dros y gwaith pwysig hwn y mae Cynllun Efe yn ei wneud yn yr ardal dan arweiniad Andrew Settatree.

## Cymdeithas Undebol

Bydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn ailgychwyn yn Capel Coch nos Fawrth, Hydref 8 gydag Adloniant ysgafn yng nghwmni Treflyn, Ann a Rhys o ardal Porthmadog, a lluniaeth ysgafn i ddilyn.

## Pwyllgor

Dal i ddisgwyl cadarnhad ydym y bydd cynrychiolwyr yr Henaduriaeth yn dod i gyfarfod â blaenoriaid a phwyllgor adeiladau Capel Coch nos Lun, Hydref 14. Gobeithiwn gynnal y cyfarfod am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch, a siawns y byddwn wedi cael gwybod erbyn y Sul nesaf.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Medi 29

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

#### Hydref 6

9.30 a.m. a 5.00 p.m. - Y Gweinidog  
10.15 a.m. - Ysgol Sul

#### Hydref 13

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

## Diolchgarwch

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch plant Capel Coch am 10.30 o'r gloch ddydd Sul, Hydref 13.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Hydref 6:** Gwasanaethir am 9.30 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog a bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Fercher, Hydref 2:** Cyfarfod Gweddi Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Hydref 4:** CIC yn y festri am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Hydref 6:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Dafydd Iwan, Caethro ac am 5.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones, Bethel. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Hydref 6:** Ni fydd oedfa.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Medi 29

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Dr Huw Tegid Roberts

#### Hydref 6

10.00 a.m. - Mr Dafydd Iwan  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Richard Ll Jones

#### Hydref 13

10.30 a.m. - Diolchgarwch y Plant  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 560 - Dydd Sul, 29 Medi 2013

## Lle safwn?

Ar y naill law does dim posibil dweud lle mae rhai pobl y dyddiau hyn, ond ar y llaw arall does dim byd cyn hawsed. Anfon neges wnes i at weinidog yr wythnos dwythfa i ofyn am erthygl ar gyfer y *Pedair Tudalen*. Cefais ateb o fewn ychydig funudau yn ymddiheuro na fedrai wneud dim ar hyn o bryd am ei fod yng Nghanaada! A minnau'n ofni y byddai fy neges wedi ei styrbio ar ganol ei waith!

Mae mor hawdd teithio heddiw, ac mae pobl yn crwydro i bob rhan o'r byd. Ac mae technoleg fodern y cyfrifiaduron a'r ffonau symudol yn golygu bod modd i bobl gysylltu â'i gilydd yn rhwyddach nag erioed o'r blaen. O fewn munud neu ddwy i anfon y neges roeddwn wedi cael gwybod bod y gweinidog hwn yng Nghanaada bell, a mwy na hynny hyd yn oed roeddwn wedi cael neges o'r wlad honno'n addo y byddai'n ymateb i'm cais unwaith y byddai wedi cyrraedd adref.

Ond gallwn sôn am ble mae pobl arni mewn ystyron eraill eraill hefyd. Er enghraifft, lle mae pobl yn eu perthynas â'i gilydd ac yn eu perthynas â Duw. Yn aml iawn, gall fod yn anodd gwybod beth mae pobl yn ei feddwl o'i gilydd. Mae rhai'n medru bod yn wên deg gyda phobl eraill gan ymddwyn fel pennaf ffrindiau, ac eto bod yn wahanol iawn y tu ôl i'w cefn. Gall pobl fod yn orïog eu hymddygiad, yn gynnes a chyfeillgar un funud ond yn oer ac annifyr y funud nesaf. Gall fod mor anodd gwybod lle maen nhw arni go iawn ag ydyw i

wybod lle mae dod o hyd i ambell un sy'n hoff o deithio'r byd.

A'r un modd mae'n anodd dweud lle mae rhai pobl yn ysbrydol, o ran eu perthynas â Duw. Oherwydd chewch chi ddim awgrym gan rai o beth maen nhw'n ei gredu am Dduw nac yn ei feddwl o'r Arglwydd Iesu. Mae fel petai peth preifat yw Cristnogaeth yn hytrach na ffydd a gobaith a bywyd sy'n gyffredin i bob un o ddilynwyr Iesu Grist. Ac yna fe gewch eraill sy'n barod i arddel y Ffydd ond sy'n dweud a gwneud pethau na ddisgwyliech oddi wrth yr un Cristion!

Mae'n anodd gwybod lle mae pobl arni am na allwn ddarllen calonnau ein gilydd. Duw yn unig sy'n chwilio ac yn adnabod y galon. Ac eto mae yna bethau sy'n ein helpu i weld lle mae pobl (a ninnau wrth gwrs) arni yn eu perthynas â Duw. Pa flas a gawn ni ar air Duw, er enghraifft? Fyddwn ni'n darllen Y Beibl ac yn myfyrio am ystyr y geiriau a ddarllenwn? Ydym ni'n gweddio'n gyson? Fyddwn ni'n siarad â Duw am mai oddi wrtho Ef y cawn bob nerth a chymorth? Ydym ni'n gweld gwerth mewn addoli'n gyson gyda'n cyd-gristnogion? Ydym ni'n ymwybodol o'n beiau, yn eu cydnabod ac yn ceisio maddeuant amdanynt? Ydym ni'n dangos awydd i fyw yn well, yn debyg i'r Iesu? Ydym ni'n parchu a charu Iesu ac yn awyddus i'w ddilyn a rhoi'r clod iddo ym mhob peth? Pethau o'r fath sy'n dangos lle mae pawb ohonom arni gerbron Duw.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon. Croeso iddi a diolch am ei gwasanaeth.

Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch yn Llanberis gan Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni. Croeso iddo yntau a diolch am ei wasanaeth unwaith eto. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

Dymuniadau gorau hefyd i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Ethol Blaenoriaid

Yn ystod oedfa'r bore yn Capel Coch heddiw bydd aelodau'r eglwys yn ethol blaenoriaid newydd. Gweddiwn am arweiniad Duw heddiw.

Estynnwn groeso i gynrychiolwyr yr Henaduriaeth a ddaw atom i arolygu'r bleidlais.

Bydd holl aelodau Capel Coch a fydd yn yr oedfa'r bore yn cael pleidleisio.

Gallwch enwi ar y papur pleidleisio unrhyw faint a fynnwch o bobl y carech eu gweld yn cael eu hethol.

Yna wedi i bawb lenwi'r papurau, caiff y pleidleisiau eu cyfrif. Y rhai a etholir yn flaenoriaid fydd y rhai a gaiff eu henwi gan fwyafrif yr aelodau a fydd wedi pleidleisio. Hynny yw, os bydd 20 o aelodau yn pleidleisio, bydd gofyn i flaenor newydd fod wedi ei enwi gan o leiaf 11 o'r aelodau.

Cofiwch hefyd yr arweiniad a geir yn y datganiad hwn:

'Mae blaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ŵr neu wraig a alwyd i wasanaethu'r eglwys leol trwy bleidlais a gynhaliwyd yn weddigar ac o dan arweiniad yr Ysbryd Glân. Ynghyd â'r gweinidog cymer blaenoriaid gyfrifoldeb fel tim am fywyd, addoliad a thystiolaeth y gynulleidfa leol. Yn ôl eu doniau y maent i ymweld â'r cleifion, i addysgu'r ifanc, i arwain a chefnogi'r rhai sy'n ceisio Crist, ac i hyfforddi a chalonogi credinwyr. Di-sgwylir hefyd iddynt fod â gofal am y Cyfundeb cyfan. Byddant hwy yn Ymddiriedolwyr Rheolaethol yn eu heglwys leol ac maent i weithio gyda'u cydfflaenoriaid a'r gweinidogion i adeiladu corff Crist trwy holl lysoedd yr Eglwys.'

Bydd Henaduriaeth Arfon yn cynnal oedfa arbennig yng Nghapel y Rhos, Llanrug i ordeinio'r blaenoriaid newydd a fydd wedi eu dewis gan eglwysy'r Henaduriaeth yn ystod y flwyddyn. Bydd yr oedfa honno am 6.30 o'r gloch nos Fawrth, Hydref 22, 2013.

## Diolch

Yn ystod yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul diwethaf cyflwynwyd tocyn llyfr gan y Gweinidog ar ran yr eglwys i Mr John H Hughes ar ei ymdeoliad o swydd blaenor yn Capel Coch.

Diolchwyd iddo am ei wasanaeth fel blaenor dros gyfnod o 24 o flynyddoedd.

Ymatebodd Mr Hughes gan ddiolch am y rhodd ac am y cydweithio a gafwyd dros y blynyddoedd, a chadarnhaodd ei fwiad i barhau i wasanaethu'r eglwys eto trwy arwain oedfaon a thrwy wneud ei ran yn llawn fel aelod. Aeth ymlaen i ddweud stori a chyflwyno neges i'r plant a oedd yn yr oedfa.

Unwaith eto, diolchwn iddo am ei holl waith ac edrychwn ymlaen at gael ei wasanaeth yn fuan eto.

## Dosbarth Beiblaidd

Dechreuwyd tymor newydd y Dosbarth Beiblaidd nos Fercher diwethaf. Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni yn y cyfarfod nesaf a gynhelir yn Yr Haciau, Penisarwaun wythnos i nos Fercher, Hydref 9.

## CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener yr wythnos hon, Hydref 4. Mae yna groeso i unrhyw un sydd ym Mlwyddyn 6, 7, 8, 9 i'r cyfarfodydd hyn. Mae digon o hwyl i'w gael.

## Coleg y Bala ar Daith

Bydd gweithwyr ieuenticid Coleg y Bala yn cynnal diwrnod o weithgareddau 'Coleg y Bala ar Daith' ym Mharc Glasfryn, Y Ffôr ddydd Sadwrn, Hydref 19. Bydd yn ddiwrnod llawn hwyl a chaiff yr ieuenticid gymryd rhan yn ngwahanol weithgareddau Glasfryn, yn cynnwys y Cartio a'r Bowlio Deg.

Bydd ieuenticid o wahanol rannau o'r Gogledd yn dod at ei gilydd i fwynhau cwmni ei gilydd a chael hwyl mewn awyrgylch Cristnogol. Gweddiwn dros lwyddiant y dydd.

## Sul Efe

Cynhelir Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch dydd Sul, Tachwedd 17.

Fel y llynedd gobeithiwn gael cwmni ysgolion Sul yr ardal yn y digwyddiad hwn. Yn wahanol i'r llynedd, ni fydd taith gerdded y tro hwn ond pawb i ddod i'r Ganolfan ar eu hunion.

## Cyngerdd

Agorwyd tymor newydd Cymdeithas Undebol Deiniolen nos Lun, a chafwyd noson arbennig yng nghwmni Annette Bryn Parri. Fel y byddech yn disgwyl, rhoddodd Annette gyngerdd arbennig i ni, ac aethom 'Nôl i'r Gorffennol' yn ei chwmmi wrth iddi gyflwyno caneuon o fyd y ffilmiau o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Roedd yr awr o ganu piano a gawsom yn rhan o raglen ehangach y bydd yn ei chyflwyno mewn theatrau mwy o lawer, ond cafodd cynulleidfa Tŷ Elidir y noson o'r blaen fwynhau'r un safon ag y bydd y theatrau mawr yn eu mwynhau. Diolchwyd iddi gan Mr Brian Price.